# PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

## YSTYRIED CANLLAWIAU DRAFFT AR STRWYTHURAU RHEOLI GWLEIDYDDOL NEWYDD

-

### Diben

1. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cynnwys a'r trefniadau cysylltiedig o ran cynhyrchu Canllawiau Drafft i Gymru ar Ran 2 o [Ddeddf] Llywodraeth Leol 2000. Diben y Canllawiau yw cynorthwyo'r awdurdodau lleol yng Nghymru i gyflwyno strwythurau rheoli gwleidyddol newydd

### Crynodeb

2. Mae'r papur hwn yn esbonio'r cefndir i'r [Ddeddf] Llywodraeth Leol a'i goblygiadau i lywodraeth leol yng Nghymru. Mae'r Atodiadau yn amlinellu cynnwys y Canllawiau sydd i'w cwblhau erbyn diwedd mis Gorffennaf a rhai o'r materion arbennig y byddant yn ymdrin â hwy.

### Argymhelliad

3. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys y papur hwn a chynnig sylwadau.

### Amseru

4. Cyflwynir y papur i gyfarfod olaf y Pwyllgor cyn toriad yr haf, gan roi cyfle i drafod y Canllawiau cyn iddynt gael eu dosbarthu yn yr haf ac i ganiatáu amser i ddiwygio fformat y Canllawiau. Bydd y Canllawiau yn destun cynhadledd ymgynghorol yn yr hydref.

### Cefndir

5. Cynhyrchodd y Swyddfa Gymreig ei Phapur Gwyn "Lleisiau Lleol: Moderneiddio Llywodraeth Leol yng Nghymru" ym mis Gorffennaf 1998 a oedd yn cynnwys strategaeth i greu strwythurau gwleidyddol newydd mewn awdurdodau lleol, gwella democratiaeth

leol, cryfhau atebolrwydd ariannol a sefydlu fframwaith moesegol newydd. Rhan gyntaf y strategaeth hon, sef cyflwyno strwythurau gwleidyddol newydd, oedd testun Mesur Llywodraeth Leol 1999.

6. Mae strategaeth "Gwell Cymru" gan y Cynulliad yn anelu at gymryd camau cynnar i foderneiddio llywodraeth leol yng Nghymru ac mae'r Cynulliad wedi bod yn cydweithio â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddatblygu strwythurau rheoli gwleidyddol newydd.
7. Mae Mesur Llywodraeth Leol 1999 yn debygol o dderbyn Cydsyniad Brenhinol ym mis Gorffennaf ac mae'n cynnwys tri phatrwm o lywodraeth weithredol y gallai awdurdodau lleol eu mabwysiadu:

   - Maer a etholir yn uniongyrchol sy'n penodi gweithrediaeth
   - Arweinydd cyngor sydd naill ai'n penodi'r weithrediaeth neu sy'n cydweithio â gweithrediaeth a benodir gan y cyngor
   - Maer a etholir yn uniongyrchol sy'n gweithredu gyda rheolwr cyngor a benodir gan y cyngor.

8. Hefyd, mae'r Mesur yn cynnwys cyfle i'r Cynulliad gymeradwyo patrymau eraill a argymhellir gan yr awdurdodau lleol cyn belled ag y bo bwlch rhwng y rôl weithredol a'r rôl archwilio a'u bod yn amlwg yn gwella natur glir ac effeithiol y broses o wneud penderfyniadau
9. Hefyd, mae'r mesur yn cyflwyno'r angen am bwyllgorau Goruchwylio ac Archwilio i ddal y weithrediaeth yn atebol ac i helpu i ddatblygu polisi.
10. Mae'r amserlen bresennol ar gyfer cyflwyno systemau gwleidyddol newydd yng Nghymru fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Ebrill – Mai 2000 | Cadw awdurdodau'n hysbys am ddatblygiadau, hyrwyddo deialog a sefydlu'r darlun diweddaraf o ran arferion presennol |
| 9 Mehefin 2000 | Gweithdy i bob Awdurdod yng Nghymru |
| Gorffennaf 2000 | Canllawiau drafft llawn i Gymru at ddibenion ymgynghori |

| | |
|---|---|
| Rhagfyr 2000 | Pob gorchymyn a rheoliad hanfodol yn cael eu hystyried gan y Cynulliad |
| 1 Mawrth 2001 | Cymeradwyir y Canllawiau terfynol a'r ddeddfwriaeth angenrheidiol sy'n deillio o'r Cynulliad |
| Mai 2001 – Mehefin 2001 | Pob awdurdod yng Nghymru yn cyflwyno cynigion ar gyfer y trefniadau rheoli gwleidyddol newydd yn dilyn ymgynghori â'r cyhoedd. |
| Mai 2002 | Pob Awdurdod yng Nghymru i fod wedi gweithredu'r trefniadau newydd. |

**Ystyriaeth**

11. Wrth gyflwyno cynigion i'r Cynulliad, bydd angen i'r awdurdodau lleol amlinellu manylion eu cyfansoddiadau drafft a dangos y camau y maent wedi'u cymryd i ymgynghori â'r etholwyr lleol a phartïon cyfrannog eraill. Mae'n hanfodol fod y Cynulliad yn derbyn canllawiau cynhwysfawr a dibynadwy oddi wrth y Cynulliad er mwyn cwblhau gorchwyl gymhleth sy'n gryn her.

12. Mae cyflwyno'r trefniadau newydd yn golygu newid sylfaenol o'r system bwyllgorau i strwythur gyda gweithrediaeth fechan ac elfen gref o archwilio. Y weithrediaeth fydd y prif gorff a fydd yn gwneud penderfyniadau, ond fe'i cedwir yn atebol gan y pwyllgorau Goruchwylio ac Archwilio.
13. Gwahoddir y Pwyllgor i wneud sylwadau ar agweddau arbennig y mae'n credu y dylai'r canllawiau drafft ymdrin â hwy. Yn atodiad 1, amlinellir materion sydd wedi dod i'r amlwg o drafodaethau gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; Syniad; Cymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE); aelodau a swyddogion awdurdodau lleol unigol yng Nghymru; y Comisiwn Archwilio, yr Archwilwyr Dosbarth a'r Comisiynydd Gweinyddiaeth Leol.

**Cydymffurfiaeth**

14. Mae'r [Ddeddf] Llywodraeth Leol yn galluogi'r Cynulliad i wneud penderfyniadau mewn nifer o feysydd, gan gynnwys:

- Cymeradwyo patrymau eraill
- Pwyllgorau ardal yn ymgymryd â swyddogaethau gweithredol
- Hwylustod o ran cael gwybodaeth
- Cynigion wrth gefn i'w gweithredu yn achos refferendwm
- Deisebau ar gyfer maer a etholir, gan gynnwys y trothwy ar gyfer cynnal etholiadau
- Cymeradwyo cyfansoddiadau

15. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i'r Cynulliad. Efallai y bydd yr awdurdodau lleol yn tynnu sylw at y ffaith y bydd cyflwyno'r trefniadau newydd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ddyrannu adnoddau i'w cefnogi; ar y llaw arall, bydd rhai o gostau cefnogi'r hen system bwyllgorau yn diflannu. Efallai y bydd technoleg newydd, a ddefnyddir i gefnogi'r trefniadau newydd, hefyd yn arwain at arbedion.

**Gweithredu**

16. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi yn arbennig y materion yn Atodiad 1 isod sydd i'w cynnwys yn y canllawiau; ac i wneud sylwadau arnynt ac ar unrhyw agwedd arall o'r cynnwys arfaethedig.

**Swyddog Cyswllt**

Frank Cuthbert – LGM2